Adroddiad ar

Ysgol Dewi Sant

Ffordd Rhuddlan
Y Rhyl
LL18 2RE

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dewi Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dewi Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 426 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 318 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 61 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 14.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 26.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.5% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/09/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol ac wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol sy’n canolbwyntio’n glir ar les a dysgu disgyblion. Mae eu gweledigaeth, sy’n seiliedig ar anogaeth a chefnogaeth gyson, yn arwain at ymddygiad ardderchog ymysg disgyblion ynghyd â brwdfrydedd at eu dysgu. Mae ymroddiad arweinwyr at werthuso a gwella’r ddarpariaeth yn rheolaidd yn sicrhau hinsawdd o welliant parhaus.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad staff yn fwriadus, ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn ddoeth, gan ganolbwyntio ar wella darpariaeth trwy drefniadau monitro manwl. Mae dyraniad synhwyrol o ran rolau a chyfrifoldebau yn ystyried baich gwaith a lles staff yn effeithiol. Mae cyfleoedd dysgu cyfoethog, gan gynnwys teithiau addysgol, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u cynefin yn bwrpasol ac yn hyrwyddo’u hymdeimlad o berthyn i gymuned yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion leisio barn yn dylanwadu’n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

Ar y cyfan, mae sesiynau addysgu’n fyrlymus ac, yn yr arferion gorau, mae athrawon yn darparu gweithgareddau difyr sy’n ymateb yn ddeallus i ddiddordebau disgyblion. O ganlyniad, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gadarn, gan ystyried eu mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw’r her yn y gweithgareddau a ddarperir gan athrawon i annog annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd cynnes a theyrngar, ac mae athrawon yn annog cydweithio a rhannu syniadau yn ystyrlon. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi dysgwyr i wella, ond nid yw ansawdd yr adborth yn arwain at gamau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae’r amgylchedd dysgu yn gartrefol ac ysgogol, gydag ystod dda o adnoddau tu mewn a thu allan i’r adeilad sy’n cefnogi’r dysgu’n llwyddiannus. Mae’r cwricwlwm yn cynnig profiadau eang sy’n adeiladu’n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Dros amser, mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr sy’n meithrin tosturi ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol barchus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod gweithgareddau’n cefnogi disgyblion i wella’u medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn ymgymryd â'u rolau'n fedrus i greu diwylliant cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r weledigaeth bwrpasol hon yn arwain at ethos cartrefol ac amgylchedd dysgu ysgogol, sy'n ganolog i ymroddiad arweinwyr i wella'r ddarpariaeth yn barhaus. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth yn glir i staff a disgyblion, ac mae hyn yn cefnogi safonau lles cadarn ymysg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Caiff hyn, yn ei dro, ei gefnogi gan awyrgylch o anogaeth sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn groesawgar i'w gilydd ac ymwelwyr. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau dysgu, ac maent yn ymddwyn yn rhagorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, sy'n cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae agweddau'r rhan fwyaf ohonynt at ddysgu yn gadarnhaol. Maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn hyderus, ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn fedrus a thrylwyr. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi prosesau gwella pwrpasol ar waith sy'n arwain at welliannau cynaledig dros amser. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys gwella darllen a medrau mathemateg pen disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cefnogi datblygiad staff yn ddeallus ac yn darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella yn fuddiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn gelfydd, fel datblygu cwricwlwm eang a chytbwys. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo diogelwch ar-lein disgyblion yn dda.

Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol mewn cefnogi a herio arweinwyr yn yr ysgol. Maent yn sicrhau defnydd priodol o'r gyllideb, sy'n cynnwys cyllido adnoddau i gyfoethogi'r dysgu. Yn ychwanegol, mae'r llywodraethwyr, ynghyd â staff, yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro rheolaidd sy'n dwyn athrawon i gyfrif yn drwyadl am effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn grefftus er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn ystyried baich gwaith a lles staff yn ofalus, gan ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion lleol, asiantaethau cefnogi a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys sesiynau entrepreneuraidd, fel rhedeg stondinau sy'n gwerthu planhigion a dyfwyd gan ddisgyblion. Hyrwydda gweithgareddau ymarferol

fel hyn ddealltwriaeth disgyblion o wahanol yrfaoedd yn y byd gwaith o fewn eu cymuned yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu'n effeithiol ar fywyd yr ysgol, eu cynefin a'r byd ehangach, sy'n cynnwys codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng dosbarthiadau a darparwyr eraill yn galluogi disgyblion ag ADY i fanteisio ar gymorth yn effeithiol. Mae staff yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn gwrando'n astud ar athrawon. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu'n huawdl at drafodaethau dosbarth. Mae'r cynnydd ym medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, ac maent yn mynegi eu barn a thrafod ffeithiau a'u teimladau yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn ddarllenwyr awyddus sy'n ymgysylltu'n synhwyrol â thestunau. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion. Maent yn ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn ddeallus ac yn dechrau gwella'u gwaith trwy olygu ac ailddrafftio priodol.

Mae athrawon yn cynllunio i gyflwyno tasgau mathemateg priodol ac maent yn darparu ystod dda o adnoddau cefnogi buddiol. Mae'r addysgu'n helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd cadarn ac yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn gweithgareddau dilys. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol a'u cymhwyso'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu.

Ar y cyfan, mae'r sesiynau addysgu yn symud y dysgu ymlaen yn amserol. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion gydweithio a rhannu syniadau i ddatblygu eu medrau. Mae hyn yn arfogi disgyblion i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd amrywiol, fel cyflwyniadau digidol. Mae athrawon yn darparu adborth addas i alluogi disgyblion i ddeall tasgau'n well a gwella'u gwaith. Mae'r adborth fel arfer yn tynnu sylw disgyblion at yr hyn maent yn ei wneud yn dda, ond nid yw bob amser yn arwain at welliannau penodol yn eu gwaith. O ganlyniad, mae cyfleoedd i feithrin camau nesaf cliriach yn eu dysgu yn llai cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cymell disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyrlon. Mae holi effeithiol gan athrawon yn helpu disgyblion i adalw gwybodaeth flaenorol yn bwrpasol ac i greu cysylltiadau deallus sy'n dyfnhau eu dysgu. Mae athrawon

a chymorthyddion yn creu amgylchedd ddifyr yn yr ystafelloedd dosbarth difyr ac ardaloedd allanol ysgogol, sy'n cynnwys ystod o adnoddau cyfoethog. Mae'r ddarpariaeth yn targedu datblygiad a dilyniant medrau disgyblion yn dda ac yn annog disgyblion i ddysgu'n gynhyrchiol. Er hyn, nid yw'r lefelau her a ddarperir gan athrawon i annog medrau annibynnol disgyblion yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a chydbwysedd da o ran dysgu ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae ystod gytbwys o weithgareddau yn darparu profiadau dysgu synhwyrol, sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, ar daith maes, maent yn astudio gwaith badau achub y dref ac yn astudio themâu rhyngwladol yn ystyrlon trwy ddathlu gwahanol ddiwylliannau.

Mae athrawon yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion gan feithrin teyrngarwch, myfyrdod a pharch yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn dda, ac mae artistiaid gwadd yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i gyfoethogi medrau artistig disgyblion. Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol eu hyrwyddo'n effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth i bobl eraill yn ddeallus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Fodd bynnag, mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol. Mae cynllun wedi'i gytuno gyda'r awdurdod lleol er mwyn adfer y sefyllfa.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2026